

CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TAL-Y-BONT

4.00 - 5.05 PM, 24 MAWRTH 2021

Yn bresennol drwy gyfrwng Teams:	Bethan Davies (Cadeirydd), Helen Ovens, Eirian Evans, y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Trish Huws, Cathryn Lloyd-Williams, Siwan Evans, Llio Rhys, Leah Griffiths, Hefin Jones (Pennaeth)
	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
1	YMDDIHEURIADAU:	
	Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Rhian Evans. PENDERFYNWYD derbyn yr ymddiheuriad hwn.	
2i	DATGELU BUDDIANT/CYFRINACHEDD: Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:	
	a) yr angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol, lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod;	
	b) y byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	c) bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.	
2ii	COFNODION:	
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod ar 3 Rhagfyr 2020 a byddent yn cael eu llofnodi'n nes ymlaen oherwydd cyfyngiadau Covid-19.	
2iii	CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH – CYMORTH I LYWODRAETHWYR:	
	Roedd copïau o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth i glercio ar ran Cyrff Llywodraethol wedi eu dosbarthu o flaen llaw i Aelodau. Yn dilyn trafodaeth PENDERFYNWYD:	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	Prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth i glercio ar ran Cyrff Llywodraethol am y flwyddyn ariannol 2021/2022 ar gost o £942.48	
	Bod y dyddiadau canlynol wedi eu pennu ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol yn 2021/2022: Tymor yr Haf: 24.06.2021 Tymor yr Hydref: 02.12.2021 Tymor y Gwanwyn: 23.03.2022	
3i	ADRODDIAD Y PENNAETH:	
	Roedd copi o adroddiad y Pennaeth a oedd yn cynnwys yr holl benawdau fel y'u clustnodir yn fformat safonol ERW wedi ei gyflwyno i Aelodau o flaen llaw. Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol:	
a)	Nododd y Pennaeth y materion canlynol: Dywedodd fod sesiynau ffrydio byw yn cael eu dair gwaith yr wythnos a bod yr athrawon yn frwdfrydig. Roedd y Pennaeth wedi edrych ar rai o'r sesiynau hyn ac roedd wedi mwynhau gweld yr amrywiol arddulliau addysgu. Roedd nifer uchel o ddisgyblion wedi ymgysylltu â'r dysgu ac roedd athrawon mewn cysylltiad â'r teuluoedd hynny nad oedd yn ymroi i'r gwersi. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi cyflawni gwaith a diolchwyd i'r staff am gynhyrchu a gosod gwaith. Roedd hyn yn cymryd llawer o amser. Diolchwyd i'r staff am weithio yn ôl trefn rota tra oedd yr ysgol ar agor i ddisgyblion bregus a phlant gweithwyr allweddol.	
b)	Roedd pethau wedi mynd yn hwylus wrth ddychwelyd i'r ysgol. Roedd y disgyblion yn gwybod y rheolau ac roeddent yn setlo'n ôl yn dda yn yr ysgol. Siaradodd Llio Rhys am y rhwystredigaeth o ran y Cyfnod Sylfaen, lle'r oedd hi'n anodd addysgu gan ddilyn y canllawiau a osodwyd. Mynegwyd pryder nad oedd athrawon yn gallu cyrraedd y disgyblion. Roedd y disgyblion wedi setlo'n dda ac roedd eu gwaith o safon dda. Dim ond y disgyblion nad oedd wedi ymgysylltu â'r gwaith yn ystod y cyfnod clo oedd wedi syrthio'n ôl yn eu gwaith. Trafodwyd grwpiau ymyrraeth ond roedd yn anodd eu trefnu. Roedd rhai ysgolion yn gweithredu'n wahanol ac roedd yn anodd gweld hyn. Roedd y mater wedi ei godi gyda'r Awdurdod Addysg a dylid dilyn y canllawiau sydd wedi eu gosod. Dim ond nifer fach o Ymgynghorwyr Cyfnod Sylfaen oedd yn yr Awdurdod Lleol. Roedd gweithgareddau'n cael eu rhannu ond nid oeddent bob	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	amser yn ymarferol. PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn trafod y sefyllfa gyda Meinir Ebbsworth.	EapG
	c) Roedd cyfarfod diddorol wedi'i gynnal yn yr ysgol gydag Arolygydd Estyn a thrafodwyd y ffordd ymlaen.	
	d) Roedd cyfarfod Cyllid wedi'i gynnal. Roedd nifer fawr o grantiau wedi'u derbyn ac roedd y rhain wedi'u clustnodi i gyflogi staff ar gyfer y flwyddyn ariannol. Byddai gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr ar gyfer CYBLD 2022.	
	e) Nid oedd Sionna Hutton wedi'i lleoli yn yr ysgol bellach a byddai'n dechrau ei chyfnod mamolaeth cyn hir. Roedd Iona Sawtell wedi ei phenodi yn ei lle.	
3ii	CRONFEYDD PREIFAT YR YSGOL:	
	Nodwyd bod swm bach o arian yng nghyfrif preifat yr ysgol.	
3iii	CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH:	
	Nodwyd bod oddeutu £3,000 yng nghronfa ymddiriedolaeth WL Rees. PENDERFYNWYD prynu tocynnau llyfr i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ddiwedd Tymor yr Haf.	
3iv	GWYBODAETH AC ARGYMHELLION YN DILYN Gweithdy 1. (Adroddiad gan y Pennaeth):	
	Hysbysodd y Pennaeth yr Aelodau o'r materion canlynol: Roedd trafodaeth gynhyrchiol wedi ei chynnal gydag Ymgynghorydd Her yr ysgol; Roedd yr adroddiad wedi ei lanlwytho ar Teams er gwybodaeth; Ymhlith y meysydd a drafodwyd roedd y Cynllun Datblygu Ysgol, Grantiau, Llesiant a'r Cod ADY.	
4	HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR:	
	Nodwyd bod Cathryn Lloyd Williams wedi cwblhau hyfforddiant ar raglen Trawsnewid ADY, Ymwybyddiaeth Awtistiaeth a'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd Bethan Davies wedi mynychu Fforwm y Llywodraethwyr, a oedd yn canolbwyntio ar y Cod ADY newydd.	
5	POLISI'AU - DOGFENNAU STATUDOL:	
	PENDERFYNWYD nodi bod yr holl bolisïau ar gael yn yr ysgol.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
6	UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD O FLAEN LLAW:	
	<p>a) Diolchodd y Pennaeth i'r holl staff am eu gwaith. Dywedodd Helen Ovens fod y rhieni yn hapus gyda'r gwaith a osodwyd.</p> <p>Gofynnodd Cathryn Lloyd Williams a oedd canllawiau wedi eu gosod i ddiogelu athrawon, gan eu bod mewn cysylltiad â rhieni drwy e-bost. Nodwyd bod athrawon yn dilyn y canllawiau ac yn copïo'r Pennaeth i mewn i unrhyw ohebiaeth a'u bod yn gofyn am gyngor yn ôl y gofyn.</p>	
	<p>b) Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc, y Pennaeth a staff yr ysgol am eu gwaith a'u cefnogaeth.</p>	
7	DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:	
	PENDERFYNWYD nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol Llawn ar 24 Mehefin 2021.	

PL
25:03:2021